# Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh)

*Ysgrifennwyd yn unol â Chanllawiau Statudol Llywodraeth Cymru, y cod ACRh a'r crynodeb deddfwriaethol (Ionawr 2022)*

| | |
|---|---|
| Awdur | |
| Ymgynghoreion | |
| Dyddiad y Polisi Enghreifftiol | Ionawr 2025 |
| Dyddiad adolygu | Ionawr 2027 |
| Enw staff yr ysgol sy'n gyfrifol am gynnal y polisi hwn: | Lowri Williams |
| Dyddiad y cytunwyd ar y polisi'n ffurfiol gan gorff llywodraethu / pwyllgor rheoli'r ysgol | 3.2.2025 |
| Dyddiad adolygu polisi | Chwefror 2027 |

**Teitl y Polisi: Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb**

*Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y polisi hwn.  Rwyf wedi cael cyfle i ofyn cwestiynau a byddaf yn sicrhau y bydd egwyddorion y polisi hwn yn cael eu hadlewyrchu yn fy ymarfer:*

| **Enw'r aelod staff:** | **Swydd:** | **Dyddiad:** | **Llofnod:** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Tudalen Gynnwys**


| Rhif yr adran | |
|---|---|
| 1 | **Cyflwyniad** |
| 2 | **Beth yw ACRh?** |
| 3<br>- 3.1 | **Amcanion ACRh**<br>- ACRh o safon dda |
| 4 | **Deddfwriaeth a chanllawiau** |
| 5<br>- 5.1<br>- 5.2<br>- 5.3<br>- 5.4 | **Cyfrifoldebau dros ACRh**<br>- Rôl Corff Llywodraethu'r Ysgol<br>- Rôl y Pennaeth a'r Uwch Dîm Arwain<br>- Rôl yr Arweinydd ACRh<br>- Rôl athrawon dosbarth |
| 6<br>- 6.1<br>- 6.2<br>- 6.3<br>- 6.4 | **Cwricwlwm ACRh**<br>- ACRh Cadarnhaol, Amddiffynnol, Ataliol<br>- Cynwysoldeb, gan gynnwys cynwysoldeb LHDTC+<br>- ACRh yn y cwricwlwm, 3 maes eang<br>- Deall natur cynnydd mewn ACRh |
| 7 | **Galluogi Hawliau Dynol** |
| 8 | **Rôl Llais y Disgybl yn ACRh** |
| 9<br>- 9.1<br>- 9.2<br>- 9.3 | **Ymateb i anghenion disgyblion**<br>- Rheolau sylfaenol<br>- Ymdrin â chwestiynau<br>- ACRh ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol |
| 10 | **Defnyddio data ar lefel leol, genedlaethol ac ysgol** |
| 11 | **Adnoddau ACRh** |
| 12<br>- 12.1<br>- 12.2<br>- 12.3 | **Partneriaethau ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**<br>- Gweithio gyda Rhieni/Gofalwyr<br>- Partneriaethau allanol<br>- Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru (CYIRhC) |
| 13 | **Polisïau cysylltiedig** |
| 14 | **Urddas Mislif** |
| 15 | **Diogelu a Chyfrinachedd** |
| 16 | **Ymddygiad Rhywiol Niweidiol** |
| 17 | **Cyfeirio at wasanaethau** |
| 18 | **Datganiad cydraddoldeb** |
| 19 | **Monitro a Gwerthuso ACRh** |
| 20 | **Mynediad at y Polisi** |
| 21 | **Atodiad 1 - Dull Gweithredu Ysgol Gyfan ar gyfer ACRh: Offeryn Archwilio** |
| 22 | **Atodiad 2 - Cytundeb dosbarth enghreifftiol** ar gyfer ACRh |

## 1. Cyflwyniad

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i fabwysiadu Dull Gweithredu Ysgol Gyfan o ddarparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) o safon uchel ar gyfer pob dysgwr. Felly, mae'n bwysig bod y polisi hwn wedi'i ddatblygu mewn ymgynghoriad ag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys staff, rhieni/gofalwyr, llywodraethwyr, sefydliadau allanol yn ogystal ag ymgysylltiad gweithredol dysgwyr. Bydd hefyd yn rhoi gwybodaeth i'r holl randdeiliaid am y ddarpariaeth ACRh yn ein hysgol. .

Yn Ysgol Hamadryad credwn fod gan bob dysgwr yr hawl i dderbyn addysg gyfannol, gynhwysol o safon uchel am berthnasoedd a rhywioldeb, sy'n briodol yn ddatblygiadol.

Mae ACRh o safon uchel yn caniatáu i bob dysgwr dyfu a datblygu mewn amgylchedd diogel i ddeall sut i ddod yn oedolion iach sy'n feddylwyr beirniadol, wrth ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol ac iach ag eraill. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn gallu archwilio, datblygu a meithrin agweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb, amrywiaeth rhywedd a pherthnasoedd parchus. Mae'r Polisi ACRh hwn yn cefnogi ymagweddau ehangach at atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV), ymddygiadau rhywiol niweidiol, ac aflonyddu a cham-drin rhwng cyfoedion.

## 2. Beth yw ACRh?

Mae ACRh yn cwmpasu'r wybodaeth, y sgiliau, y gwarediadau a'r gwerthoedd a fydd yn grymuso dysgwyr i:

- Gefnogi eu hiechyd a'u lles.
- Datblygu perthnasoedd iach, diogel a boddhaus o bob math, gan gynnwys y rheini gyda theulu a ffrindiau, a chydag amser, perthnasoedd rhamantus a rhywiol.
- Llywio a gwneud synnwyr o sut mae perthnasoedd, rhyw, rhywedd a rhywioldeb yn siapio eu hunaniaethau a'u bywydau eu hunain a phobl eraill.
- Deall a chefnogi eu hawliau a hawliau pobl eraill i fwynhau perthnasoedd teg, diogel, iach a boddhaus trwy gydol eu bywydau ac eirioli dros y rhain.

## 3. Amcanion ACRh

Mae Ysgol Hamadryad yn gwbl gynhwysol sy'n golygu ein bod yn defnyddio Dull Gweithredu Ysgol Gyfan, strategol o gynnwys ac ymateb yn llawn i anghenion ein holl ddysgwyr a'n teuluoedd.

- Mae gan ACRh rôl gadarnhaol a grymusol yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol i'w cefnogi i wireddu'r **Pedwar diben** fel rhan o *ddull gweithredu ysgol gyfan.*

- Mae ein cwricwlwm ACRh yn galluogi dysgwyr i feithrin a chynnal amrywiaeth o berthnasoedd, i gyd yn seiliedig ar gydymddiriedaeth a pharch. Dyma sylfaen ACRh yn ein hysgol.
- Mae ACRh o safon dda yn grymuso dysgwyr i wneud penderfyniadau cyfrifol a gwybodus a gallu deall eu hunain ac eraill.
- Mae ein Cwricwlwm ACRh yn ceisio arfogi dysgwyr i herio stereoteipiau a chanfyddiadau niweidiol a gallu chwilio am help a chefnogaeth.
- Mae ACRh o safon dda yn gadarnhaol, yn amddiffynnol ac yn ataliol ac yn seiliedig ar ymagwedd a arweinir gan angen a ategir gan hawliau sy'n cymryd agwedd gadarnhaol ar rywioldeb a pherthnasoedd dynol. (Gweler rhagor o wybodaeth am 'Cadarnhaol, Amddiffynnol, Ataliol' dan yr adran '*Cwricwlwm ACRh*').

**3.1 Dylai ACRh o safon dda hefyd:**

- Ddarparu ffeithiau cywir.
- Defnyddio terminoleg fiolegol gywir yn ystod gwersi ACRh.
- Hyrwyddo diwylliant dysgu diogel, cadarnhaol, agored a gonest yn rhydd o stigma, cywilydd, ofn ac euogrwydd sy'n gadarnhaol gynhwysol, yn barchus ac yn ddiogel i bob dysgwr.
- Hyrwyddo ymwybyddiaeth feirniadol o'r gwahanol agweddau a gwerthoedd mewn perthynas ag ACRh.
- Grymuso dysgwyr i wneud penderfyniadau cyfrifol a gwybodus a gallu deall eu hunain ac eraill.
- Herio stereoteipiau a chanfyddiadau niweidiol, gan gynnwys normau rhywedd.
- Darparu mynediad at wybodaeth wrthrychol, gefnogol a chynhwysol am dyfu i fyny, newidiadau i'r corff, perthnasoedd iach, iechyd atgenhedlu a rhywiol.
- Darparu gwybodaeth ar ble y gall dysgwyr gael mynediad at wasanaethau help a chymorth mewn perthynas ag ACRh.

## 4. <u>Deddfwriaeth a chanllawiau</u>

Mae Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) yn ofynion statudol yn y fframwaith Cwricwlwm i Gymru newydd ac yn orfodol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae'n nodi'r themâu a'r materion y mae'n rhaid eu cynnwys.

Mae'r <u>Cod ACRh</u> yn cael ei chyhoeddi mewn deddfwriaeth o dan Is-adran 8 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, ac mae'n nodi'n glir y gofynion gorfodol cyfreithiol ar gyfer ACRh y mae'n rhaid i ysgolion a darpariaethau addysg eu cyflawni. Dyma'r prif bwyntiau:

- Mae ACRh yn orfodol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed yng Nghymru.
- Ni fydd rhieni/gofalwyr bellach yn gallu tynnu eu plentyn/person ifanc yn ôl o ACRh yn unol â chyflwyno'r cwricwlwm newydd.

- Gan ddefnyddio canllawiau cefnogol, bydd ysgolion yn llunio eu Cwricwlwm ACRh eu hunain.
- Rhaid i'r Cwricwlwm ACRh fod yn briodol yn ddatblygiadol i ddysgwyr.
- Mae'n rhaid i'r Cwricwlwm ACRh gynnwys dysgu sy'n datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth dysgwyr o hunaniaethau, safbwyntiau a gwerthoedd gwahanol ac amrywiaeth o berthnasoedd, rhywedd a rhywioldeb, gan gynnwys bywydau LHDTC+.

Cyhoeddir Canllawiau Statudol ACRh (2022) o dan Is-adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ac fe'u cynlluniwyd i gynorthwyo'r rheini sy'n gyfrifol, fel y nodir yn y Cod ACRh, i lunio'r Cwricwlwm ACRh ar gyfer eu hysgol/darpariaeth addysg.

Mae Ysgol Hamadryad **y**n cydymffurfio'n llawn â'r ddyletswydd statudol gyfreithiol a nodir yn y Cod ACRh gan Lywodraeth Cymru.

Mae ein polisi ysgol a'n cwricwlwm wedi'u datblygu yn unol â chanllawiau statudol a **chrynodeb deddfwriaethol** Llywodraeth Cymru ac yn cyd-fynd â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Gweler Is-adran 18 ar gyfer Datganiad Cydraddoldeb y polisi.

## 5. Rolau a Chyfrifoldebau ACRh (***Personolwch** yn ôl yr angen*)

Yn unol â Dull Gweithredu Ysgol Gyfan, mae ACRh yn gyfrifoldeb ar bawb yn Ysgol Hamadryad Fodd bynnag, mae gan y Corff Llywodraethol, y Pennaeth, yr Uwch Dîm Arwain ac Arweinydd ACRh rolau penodol i sicrhau bod ACRh yn cael ei weithredu'n llwyddiannus a bod amgylchedd diogel i bob dysgwr.

### 5.1 Rôl Corff Llywodraethu'r Ysgol/Ddarpariaeth

Rôl y Corff Llywodraethu yn Ysgol Hamadryad yw:

- Penderfynu ac awdurdodi Polisi ACRh, gan sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Gofynion Statudol a amlinellir yn y Cod ACRh.
- Sicrhau bod y Polisi ACRh yn gyfredol ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd (bob dwy flynedd).
- Sicrhau bod y Polisi ACRh yn cael ei ddosbarthu'n eang ar draws cymuned gyfan yr ysgol.

### 5.2 Rôl y Pennaeth a'r Uwch Dîm Arwain

Rôl y Pennaeth a'r Uwch Dîm Arwain yn Ysgol Hamadryad yw:

- Cydlynu llunio Polisi ACRh yr ysgol drwy gynnwys yr holl randdeiliaid perthnasol.
- Dyrannu aelod o staff a enwir i arwain ar ACRh.
- Rhoi gwybod i'r holl staff ac oedolion sy'n ymwneud â darparu ACRh yn yr ysgol o gynnwys y polisi a'i oblygiadau iddynt fel darparwyr.
- Asesu anghenion Datblygiad Proffesiynol Parhaus staff yr ysgol sy'n ymwneud â'r rhaglen a cheisio ymateb i'r anghenion hyn gyda hyfforddiant proffesiynol addas.
- Darparu cefnogaeth i'r Arweinydd ACRh lle bo hynny'n briodol, gan gynnwys cefnogi unrhyw heriau gan rieni/gofalwyr.

- Pennu a dyrannu lwfans cyllido ar gyfer Cwricwlwm ACRh i gefnogi adnoddau/hyfforddiant proffesiynol/costau sefydliadau allanol.
- Pan fydd y Polisi ACRh yn cael ei adolygu, ymgynghorir â dysgwyr, athrawon, llywodraethwyr, teuluoedd ac asiantaethau allanol (lle bo hynny'n berthnasol) i sicrhau ei fod yn effeithiol ac yn bodloni gofynion statudol.
- Archwilio ACRh yn unol ag adolygu'r polisi hwn a/neu ystyried unrhyw ddatblygiadau newydd, gan ddefnyddio'r offeryn archwilio yn **Atodiad 1**.

**5.3 Rôl yr Arweinydd ACRh**

Rôl yr Arweinydd ACRh yn Ysgol Hamadryad yw:

- Datblygu a gweithredu Cwricwlwm ACRh sy'n briodol yn ddatblygiadol ar gyfer pob dysgwr, yn unol â'r gofynion statudol a amlinellir yn y Cod ACRh.
- Monitro a gwerthuso ACRh ar y cyd ag arweinwyr pwnc eraill i sicrhau bod ACRh yn cael ei integreiddio'n effeithiol ar draws pob un Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh), yn unol â'i statws fel thema drawsbynciol.
- Ysgol/Darpariaeth Uwchradd yn unig: Cysylltu a gwneud cysylltiadau priodol ag ysgolion bwydo er mwyn sicrhau parhad a datblygiad.
- Monitro a gwerthuso'r cynllun gwaith ac addasrwydd adnoddau.
- Sicrhau bod llais y disgybl yn cael ei adlewyrchu yn y Cwricwlwm ACRh.
- Cysylltu ag asiantaethau allanol a chydlynu eu hymwneud â'r rhaglen ACRh lle bo hynny'n briodol.
- Cysylltu â rhieni/gofalwyr lle bo angen ynghylch y Cwricwlwm ACRh.
- Cysylltu â'r awdurdod lleol a'r Tîm Ysgolion Iach.
- Cynnig cefnogaeth i rieni/gofalwyr wrth siarad â'u plant am ACRh a sut i gysylltu hyn â'r hyn sy'n cael ei ddysgu yn yr ysgol.
- Bydd y Cwricwlwm ACRh yn cael ei fonitro a'i werthuso gan yr Arweinydd ACRh yn flynyddol i sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol, yn gyfredol ac yn diwallu anghenion pob dysgwr.

**5.4 Rôl athrawon dosbarth**

Rôl athrawon dosbarth yn Ysgol Hamadryad yw:

- Addysgu ACRh drwy bob maes o'r cwricwlwm, yn ogystal â thrwy wersi ACRh penodol, er mwyn sicrhau bod pob maes o'r Cod ACRh yn cael eu cynnwys.
- Amrywio strategaethau a thechnegau addysgu yn unol ag anghenion dysgwyr.
- Darparu gwybodaeth gywir a diduedd am ACRh i ddysgwyr fel rhan o ymagwedd blwraliaethol ein hysgol. Mae hyn yn golygu, lle mae cwestiynau yn ymwneud â gwerthoedd, ein bod yn darparu ystod o safbwyntiau cyffredin sydd gan gymdeithas ar bwnc penodol. Wrth iddynt ddatblygu, anogir dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain.

**6. <u>Cwricwlwm ACRh</u>**

Mae ACRh yn faes eang, rhyngddisgyblaethol a chymhleth sy'n cynnwys dimensiynau biolegol, cymdeithasol, seicolegol, ysbrydol, moesegol a diwylliannol. Mae Ysgol Hamadryad yn ceisio darparu Cwricwlwm ACRh blwraliaethol o safon uchel sy'n yn seiliedig ar y chwe egwyddor allweddol ar gyfer ACRh fel y nodir yng Nghanllawiau ACRh Llywodraeth Cymru. Mae'r ddarpariaeth hon yn anelu at fod yn gynhwysol, yn ffeithiol gywir, ac yn annog dysgwyr i ymgysylltu'n feirniadol â'r deunyddiau a ddefnyddir. Bydd y Cwricwlwm ACRh yn cael ei addysgu gan staff gan ddefnyddio themâu trawsbynciol a gwersi synhwyrol ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) perthnasol, gan ddefnyddio strategaethau a thechnegau addysgu sy'n briodol yn ddatblygiadol ac sy'n diwallu anghenion dysgwyr. Bydd hyn hefyd yn helpu i osgoi ymagwedd 'un mater' lle mae pob gwers yn ymdrin â mater ACRh gwahanol, ar wahân i ddysgu arall.

**6.1 ACRh cadarnhaol, amddiffynnol ac ataliol**

Gan adeiladu ar y Cod, mae'r ymagwedd at ymdrin ag ACRh yn ein hysgol yn gadarnhaol, yn amddiffynnol ac yn ataliol. Rydym yn cefnogi dysgwyr i:

- Gael mynediad at wybodaeth wrthrychol, gefnogol a chynhwysol am dyfu i fyny, newidiadau, perthnasoedd, iechyd atgenhedlu a rhywiol.
- Deall ac ymdopi â newid, gwrthdaro a phwysau.
- Adnabod ymddygiadau a allai fod yn niweidiol mewn perthnasoedd a gwybod sut i geisio cymorth.
- Bod â'r wybodaeth i gydnabod pob math o wahaniaethu, trais, cam-drin ac esgeulustod, gan gynnwys **Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.**
- Gofynnwch am help a chyngor lle bo hynny'n briodol.

**6.2 Cynwysoldeb, gan gynnwys cynwysoldeb LHDTC+**

Yn unol â gofynion gorfodol y Cod ACRh, bydd ACRh yn cael ei wireddu mewn ffordd sy'n gynhwysol yn unol ag egwyddorion cydraddoldeb. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu gweld eu hunain, eu teuluoedd a'u cymunedau yn cael eu hadlewyrchu ar draws y cwricwlwm, a gallant ddysgu i werthfawrogi gwahaniaeth ac amrywiaeth fel ffynhonnell cryfder. Mae hyn yn cyfrannu at gymdeithas gydlynol a theg sy'n arfogi dysgwyr â sgiliau am oes. Mae hyn yn cynnwys tegwch o ran rhywedd a chynwysoldeb LHDTC+.

**6.3 Mae ACRh yn y cwricwlwm yn canolbwyntio ar dri maes eang:**

- **Perthynas a hunaniaeth:** helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddatblygu perthnasoedd iach, diogel a boddhaus ag eraill a'u helpu i wneud synnwyr o'u meddyliau a'u teimladau.
- **Iechyd a lles rhywiol:** helpu dysgwyr i ddefnyddio ffynonellau ffeithiol ynghylch eu hiechyd a lles rhywiol ac atgenhedlu, gan ganiatáu iddynt wneud penderfyniadau gwybodus drwy gydol eu bywydau.
- **Grymuso, diogelwch a pharch:** helpu i ddiogelu dysgwyr rhag pob math o wahaniaethu, trais, cam-drin ac esgeulustod a'u galluogi i adnabod perthnasoedd a

sefyllfaoedd anniogel neu niweidiol, gan eu cefnogi i adnabod pryd, sut a ble i ofyn am gymorth a chyngor.

**Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymdrin â'r themâu canlynol mewn ACRh: perthnasoedd, hawliau a thegwch, rhyw, rhywedd a rhywioldeb; cyrff a delwedd corff, iechyd a lles rhywiol; trais; diogelwch a chefnogaeth. Mae'r themâu hyn wedi'u plethu i'r meysydd uchod. c**

### 6.4 Deall natur cynnydd mewn ACRh

Rhaid i'r Cwricwlwm ACRh fod yn briodol yn ddatblygiadol i ddysgwyr. Yn Ysgol Hamadryad byddwn yn dilyn y dull gweithredu Camau 1, 2 a 3 yn fras, fel yr amlinellwyd gan God Llywodraeth Cymru o ran pa gynnwys sy'n dod dan bob ystod oedran. Mae hyn yn golygu y byddwn yn ystyried ystod o ffactorau yn ein hysgol, gan gynnwys oedran y dysgwr; gwybodaeth ac aeddfedrwydd; unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a rhagweld eu datblygiad a'u hanghenion ffisiolegol, emosiynol neu gymdeithasol wrth gynllunio. Mae dysgu o fewn y Cwricwlwm ACRh i'w gysylltu â'r camau canlynol:

- **Cam 1**: o 3 oed
- **Cam 2**: o 7 oed
- **Cam 3**: o 11 oed

Mae egwyddorion cynnydd ar draws **MDaPh** **Iechyd a Lles** yn cynnig arweiniad i **ddilyniant** yn ACRh. Mae ein cwricwlwm yn ailedrych ar gynnwys, themâu a phynciau fel yr amlinellir yn y camau blaenorol a nodir yn y Cod, gan atgyfnerthu, ac adeiladu ar ddealltwriaeth ac anghenion newidiol dysgwyr.

Mae Ysgol Hamadryad yn ceisio darparu gwybodaeth gywir a diduedd am ACRh i ddysgwyr fel rhan o'n hymagwedd blwraliaethol. Mae hyn yn golygu, lle mae cwestiynau yn ymwneud â gwerthoedd, ein bod yn darparu ystod o safbwyntiau cyffredin sydd gan gymdeithas ar bwnc penodol. Wrth iddynt ddatblygu, anogir dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb cynyddol am eu dysgu eu hunain.

## 7. Galluogi Hawliau Dynol a'r CCUHP

Wrth i'r byd o'n cwmpas esblygu ar raddfa gyflym a sylweddol, byddwn yn cynnal hawliau dysgwyr dan y Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) i addysg (Erthygl 28) sy'n eu paratoi i ddeall eraill (Erthygl 29) trwy Gwricwlwm ACRh cynhwysol, cyfannol a chyfranogol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Yn y modd hwn, mae dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o sut mae hawliau'n gysylltiedig â phob agwedd ar ACRh ac yn cyfrannu at ryddid, urddas, lles a diogelwch pawb. Mae hyn hefyd yn helpu dysgwyr i ddeall pwysigrwydd tegwch, gan gydnabod pwysigrwydd hawliau wrth sicrhau triniaeth deg i bawb.

Mae'r hawliau isod yn sail i'n cwricwlwm ACRh a'n polisi ysgol ac yn eu siapio:

- peidio â gwahaniaethu (Erthygl 2):
- cael eich clywed a'ch cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau (Erthygl 12)

- rhyddid mynegiant (Erthygl 13)
- dilyn eich crefydd eich hun (Erthygl 14)
- bod â phreifatrwydd (Erthygl 16)
- cael mynediad at wybodaeth i wneud penderfyniadau gwybodus (Erthygl 17)
- peidio â chael niwed a dylid gofalu amdanynt a'u cadw'n ddiogel (Erthygl 19)
- iechyd o’r safon uchaf posib, a mynediad at gyfleusterau iechyd, a gofal iechyd ataliol (Erthygl 24)
- addysg sy'n paratoi plant i ddeall eraill (Erthygl 29)
- amddiffyniad rhag cam-drin a chamfanteisio rhywiol (Erthygl 34)
- cael help arbennig os ydynt wedi cael eu cam-drin (Erthygl 39)

Mae ein hysgol hefyd yn cysylltu dysgu â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA): Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau
.

Bydd pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn Ysgol Hamadryad bob amser yn gwneud yr hyn sydd orau i bob dysgwr, fel rhan o'n Dull Gweithredu Ysgol Gyfan at ACRh (Erthygl 3).

## 8. Rôl Llais y Disgybl yn ACRh *(Personolwch yn ôl yr angen)*

Fel y nodwyd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i gael ymgynghoriad ar benderfyniadau sy'n cael eu gwneud am eu bywydau (Erthygl 12). Sicrhau bod y Cwricwlwm ACRh yn diwallu anghenion dysgwyr ac yn mynd i'r afael â thueddiadau sy'n dod i'r amlwg, bydd Ysgol Hamadryad yn ymgynghori â dysgwyr ac yn eu cynnwys yng nghynnwys y cwricwlwm ar gyfer ACRh ac yn cadw hyblygrwydd i fynd i'r afael â'r materion y mae dysgwyr yn eu nodi. Bydd barn dysgwyr am beth, sut a ble maen nhw'n dysgu yn cael eu hystyried fel y gall y Cwricwlwm ACRh wir adlewyrchu'r profiadau y mae plant a phobl ifanc yn eu cael mewn cymdeithas.

Bydd yr Arweinydd ACRh yn ymgymryd â gwerthuso rheolaidd gyda dysgwyr i sicrhau bod y Cwricwlwm ACRh mor gadarn, pwrpasol, ymatebol a dengar â phosib gan ddefnyddio dulliau creadigol a chyfranogol i wneud hyn lle bo hynny'n bosib.

## 9. Ymateb i Anghenion Disgyblion (***Personolwch*** *yn ôl yr angen)*

Mae Ysgol Hamadryad yn gwbl gynhwysol sy'n golygu ein bod yn defnyddio dull gweithredu ysgol gyfan, strategol o gynnwys ac ymateb yn llawn i anghenion ein holl ddysgwyr a'n teuluoedd.

### 9.1 Rheolau sylfaenol / creu amgylchedd dysgu diogel

Yn Ysgol Hamadryad rydym yn ymdrechu i greu amgylcheddau dysgu diogel a chefnogol. Mae hyn yn helpu i greu ymddiriedaeth a chaniatáu lle diogel i ddysgwyr ystyried dysgu, gofyn cwestiynau a mynegi eu meddyliau a'u teimladau. Ein nod yw annog sgwrs barchus, y gellir ei chyflawni drwy ddatblygu cytundeb gweithio o reolau sylfaenol gyda dysgwyr. Mae hyn yn helpu i gynnal ffiniau proffesiynol a chadw dysgwyr ac ymarferwyr yn ddiogel. Er enghraifft,

gall ymagweddau creadigol helpu dysgwyr i rannu eu cwestiynau, eu safbwyntiau a'u profiadau'n ddienw, gan ganiatáu trafodaeth fwy agored a gonest (gweler Atodiad 2).

**9.2 Ymdrin â chwestiynau**

Os gofynnir cwestiynau i staff gan ddysgwyr yn ystod gwersi ACRh (a allai fod o natur sensitif) ni fyddant byth yn datgelu eu profiadau personol. Byddant yn defnyddio eu barn broffesiynol wrth ddarparu atebion sy'n briodol i oedran ac aeddfedrwydd y dysgwr neu ddysgwyr eraill a allai fod yn gwrando. Efallai y bydd adegau pan fydd athrawon yn teimlo y dylid cynghori disgyblion i ofyn i oedolyn arall, rhiant/gofalwr yn ôl pob tebyg, ac os bydd hyn yn digwydd, bydd athrawon yn ceisio rhoi gwybod i rieni/gofalwyr os yw'r plentyn yn fodlon neu'n gwirio gyda nhw bod y mater wedi cael ei drin.

Bydd technegau cadw pellter hefyd yn cael eu defnyddio i helpu dysgwyr i drafod materion sensitif a datblygu eu sgiliau gwneud penderfyniadau mewn amgylchedd 'diogel'. Mae'r ysgol yn cynnwys blwch cwestiynau ym mhob gwers ACRh fel y gall disgyblion ofyn cwestiwn yn ddienw. Bydd unrhyw wybodaeth y mae'r athro'n teimlo y byddai'n cefnogi'r dosbarth yn cael sylw mewn gweithgaredd diweddarach. Os nad yw athro yn gwybod yr ateb i gwestiwn, bydd yn cydnabod hyn ac yn ymchwilio i'r cwestiwn yn nes ymlaen.
Weithiau gall dysgwr unigol ofyn cwestiwn penodol neu amhriodol. Os bydd y sefyllfa hon yn codi, atgoffir y dysgwr o'r cytundeb dosbarth/rheolau sylfaenol. Os yw cwestiwn yn teimlo'n amhriodol i ddysgwr neu i'r dosbarth cyfan, neu'n codi pryderon, bydd yr athro yn cydnabod y cwestiwn ac yn tawelu meddwl y dysgwr y bydd yn rhoi sylw iddo ar ôl y wers, ar sail unigol. Yn y modd hwn, bydd y dysgwr yn teimlo ei fod wedi cael ei drin â pharch, ond ni fydd gwybodaeth bersonol amhriodol yn cael ei rhannu â gweddill y dosbarth. Pan fydd cwestiwn yn codi pryder, bydd yr athro yn ystyried a yw'n fater o ymchwilio ymhellach o fewn gweithdrefnau / polisi diogelu'r ysgol, gan gynnwys ymgynghori â Gwasanaethau Plant (MASH) a/neu Heddlu De Cymru, yn ôl yr angen.

**9.3 ACRh ar gyfer dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (*Personolwch* *yn ôl yr angen)***

Rhaid darparu'r Cwricwlwm ACRh ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd staff yn Ysgol Hamadryad yn ystyried y ffordd orau o ddiwallu anghenion dysgwyr unigol y mae eu hanghenion ychwanegol yn golygu efallai na fydd eu dealltwriaeth o iechyd a lles rhywiol yn cyd-fynd â'u hoedran cronolegol.

Mae'r holl staff, gan gynnwys staff ategol, ffisiotherapyddion, nyrsys a gofalwyr yn ymwybodol o ymagwedd yr ysgol o ymdrin ag ACRh wrth weithio gyda dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

**10. Defnyddio data ar lefel leol, genedlaethol ac ysgol** (***Personolwch*** yn ôl yr angen)

Yn Ysgol Hamadryad rydym yn defnyddio amrywiaeth o ddata iechyd a lles sydd ar gael i ddatblygu Cwricwlwm ACRh pwrpasol sy'n diwallu anghenion pob dysgwr. Mae hyn yn cynnwys data a gasglwyd drwy arolygon fel y Rhwydwaith Ymchwil Ysgolion Iach (RhYYI).

## 11. **Adnoddau ACRh** ***(Personolwch** yn ôl yr angen)*

Mae'n hanfodol bod yr Arweinydd ACRh yn defnyddio adnoddau ACRh sy'n berthnasol, y mae iddynt enw da, ac sy'n briodol yn ddatblygiadol, yn gynhwysol ac yn sensitif i anghenion dysgwyr, lle bo hynny'n bosib, i gefnogi'r Cwricwlwm ACRh. Yn Ysgol Hamadryad defnyddir yr adnoddau allweddol canlynol:

- Adnoddau SENSE
- Adnodd 'Tyfu i Fyny' cynradd
- NSPCC
- Prosiect Sbectrwm, Stori Cymru (Hafan Cymru gynt)
- AGENDA
- CRUSH
- SchoolBeat - Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru

Gwahoddir rhieni/gofalwyr i weld neu drafod yr adnoddau y mae'r ysgol yn bwriadu eu defnyddio er mwyn rhoi sicrwydd ac i alluogi sgyrsiau, lle bo'n briodol, i gael eu hatgyfnerthu a'u parhau yn y cartref.

## 12. **Partneriaethau ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**

### 12.1 Gweithio gyda Rhieni/Gofalwyr

Fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru, mae ACRh yn orfodol i bob dysgwr 3 - 16 oed. Mae hyn yn golygu na all rhieni/gofalwyr dynnu eu plentyn yn ôl o'r ACRh mwyach yn unol â chyflwyno'r cwricwlwm ym mhob grŵp blwyddyn. Fodd bynnag, mae Ysgol Hamadryad yn cydnabod bod gan rieni a gofalwyr ddylanwad a rôl bwysig i'w chwarae o ran cyflwyno negeseuon am addysg cydberthynas a rhywioldeb. Rhieni a gofalwyr yw'r bobl allweddol wrth ddysgu eu plant am ryw a pherthnasoedd a chynnal diwylliant ac ethos y teulu. O ganlyniad, rydym yn ystyried ACRh yn gyfrifoldeb a rennir ac yn ceisio rhoi gwybod i rieni/gofalwyr am y Polisi ACRh hwn, y Cwricwlwm ACRh, ac adnoddau lle bo hynny'n bosib.

Rydym yn cefnogi rhieni/gofalwyr i ddeall pam y mae ACRh gynhwysol o safon uchel yn Ysgol Hamadryad yn bwysig i ddatblygiad a dysgu pob person ifanc. Anogir rhieni/gofalwyr i drafod pryderon a allai fod ganddynt gyda'u hathro dosbarth neu athro blwyddyn yn y lle cyntaf neu'r Arweinydd ACRh Lowri Williams.

Mae'r ysgol yn croesawu unrhyw sylwadau gan rieni a gofalwyr sydd â'r nod o wella darpariaeth yr ysgol yn y maes hwn. Mewn sefyllfaoedd lle mae rhieni/gofalwyr yn anhapus gydag elfennau o'r Cwricwlwm ACRh, gofynnir iddynt ddilyn y Polisi Cwynion ar gyfer Ysgol Hamadryad neu gysylltu â'r canlynol, cadeirydd y corff llywodraethol gyda'u cwyn.

### 12.2 Partneriaethau allanol

Er mai Ysgol Hamadryad sy'n gyfrifol am gyflwyno'r Cwricwlwm ACRh, rydym yn cydnabod gwerth cynnwys asiantaethau/siaradwyr gwadd allanol priodol i ategu'r Cwricwlwm ACRh.

Nid yw'r mewnbwn hwn yn disodli darpariaeth a chyflawniad yr ysgol/y ddarpariaeth addysg o ACRh. Os bydd asiantaeth/siaradwr allanol anhysbys yn cysylltu â'r ysgol/ddarpariaeth addysgol, yna gofynnir am gyngor ynghylch addasrwydd.

Arfer da wrth weithio gydag asiantaethau allanol/siaradwyr gwadd:

- Sicrhau bod gan yr asiantaeth allanol y sgiliau, yr wybodaeth a'r cymhwysedd cywir, a bod ganddi enw da proffesiynol am fod yn gyfannol ac yn gynhwysol yn ei hymagwedd at ACRh.
- Sicrhau bod nodau a deilliannau dysgu yn briodol i oedran y dysgwyr a fwriadwyd.
- Sicrhau bod gan yr asiantaeth allanol/siaradwyr gwadd GDG ac ystyrir eu bod yn briodol mewn perthynas â Gweithdrefnau Diogelu.
- Sicrhau bod yr ysgol/darpariaeth addysg wedi gwneud yr asiantaeth allanol yn ymwybodol o bolisïau'r ysgol.
- Bydd staff yn hysbysu ac yn paratoi dysgwyr ar gyfer ymweliad asiantaeth allanol/siaradwr gwadd ac yn rhoi amser iddynt baratoi cwestiynau ymlaen llaw.
- Bydd staff yn aros yn yr ystafell ddosbarth bob amser gan eu bod yn gyfrifol am y dysgwyr a rheoli ymddygiad.

**12.3 Cynlluniau Ysgolion Iach Rhwydwaith Cymru (CYIRhC)** ***(Personolwch*** yn ôl yr angen)

Mae Ysgol Hamadryad yn cymryd rhan weithredol yn y cynllun Ysgolion Iach. Mae hyn yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu dull gweithredu ysgol gyfan ar gyfer ACRh drwy gysylltu'n effeithiol â pholisïau, staff, datblygu cwricwlwm sbiral, ethos ysgol, llais y dysgwr a'r gymuned ehangach drwy faes pwnc iechyd Datblygiad Personol a Pherthnasoedd.

**13. <u>Polisïau Cysylltiedig</u>** ***(Personolwch*** yn ôl yr angen)

Ni ddylid darllen y polisi hwn ar ei ben ei hun. Mae pob aelod o staff yn Ysgol Hamadryad yn ymwybodol ac yn glynu wrth bolisïau ysgol perthnasol sy'n ategu ACRh. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfrinachedd
- Diogelu / Amddiffyn Plant
- Gwrth-fwlio (gan gynnwys gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â bwlio homoffobig, biffobig a thrawsffobig)
- Defnyddio a Chamddefnyddio Sylweddau
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Diogelwch ar y Rhyngrwyd / e-Ddiogelwch
- Rheoli Ymddygiad / Perthnasoedd Cadarnhaol

**14. <u>Urddas Mislif</u>** ***(Personolwch*** yn ôl yr angen)

Mae ein hysgol yn llwyr gefnogi Cynllun Gweithredu Strategol Urddas Mislif Llywodraeth Cymru, sy'n ceisio rhoi diwedd ar y stigma a'r cywilydd sy'n gysylltiedig â mislifoedd.

Byddwn yn cefnogi'r cynllun drwy sicrhau'r canlynol:

1. Darparu nwyddau mislif am ddim, gan gynnwys nwyddau ecogyfeillgar, y gall dysgwyr gael gafael arnynt o'r ciwbiclau toiled ac mewn amrywiaeth o leoliadau eraill swyddfa's ysgol.
2. Cwricwlwm ACRh cadarn sy'n cwmpasu cylchred y mislif a mislifoedd ar gyfer pob rhyw.
3. Amgylchedd diogel ac addas ar gyfer defnyddio/newid nwyddau.
4. Darparu biniau mislif yn nhoiledau dysgwyr i gefnogi gwaredu nwyddau yn ddiogel ac yn amgylcheddol.
5. Cyfathrebu clir â dysgwyr a rhieni/gofalwyr sy'n eu hysbysu o'r nwyddau am ddim sydd ar gael ar y safle, a sut y gallant gael gafael arnynt.

**15. <u>Diogelu a Chyfrinachedd</u>** ***(Personolwch*** yn ôl yr angen)

Mae'r Cwricwlwm ACRh yn Ysgol Hamadryad yncefnogi dysgwyr i allu datblygu eu gwybodaeth, eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth ar sut i adnabod ymddygiadau gwahaniaethol, ymddygiadau rhywiol niweidiol, perthnasoedd afiach ac ymosodol/treisgar, wrth sicrhau bod pob dysgwr yn datblygu dealltwriaeth o'r hyn a olygir wrth gydsyniad, gan gynnwys datblygu sgiliau ar sut i roi a thynnu cydsyniad yn ôl.

Mae'n bwysig bod holl staff yr ysgol yn derbyn yr Hyfforddiant Diogelu priodol. Mae staff yn deall bod ganddynt ddyletswydd i ddilyn Polisi a'r Gweithdrefnau Diogelu'r Ysgol yn Ysgol Hamadryad, a fydd yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru / protocol yr AALl os oes amheuaeth y gallai dysgwr fod wedi dioddef neu fod mewn perygl o ddioddef niwed.

Mae ein cwricwlwm ACRh yn cefnogi dysgwyr i allu datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o sut i adnabod ymddygiadau rhywiol niweidiol, gwahaniaethu, perthnasoedd camdriniol, a thrais a datblygu dealltwriaeth o'r hyn a olygir wrth gydsyniad. Gall dysgwyr ddatgelu gwybodaeth i staff yr ysgol na allant aros yn gyfrinachol. Pan fydd hyn yn digwydd, bydd ein staff yn dilyn y canllawiau isod:

- Atgoffa dysgwyr na all staff gynnig cyfrinachedd diamod.
- Rhoi gwybod i ddysgwyr yn gyntaf os yw staff yn mynd i dorri cyfrinachedd.
- Lle y bo'n briodol, annog dysgwyr i siarad am unrhyw bryderon sydd ganddynt gyda rhieni/gofalwyr.
- Sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi'n ddigonol gan aelod priodol o staff.
- Dilyn Polisi Diogelu yr ysgol bob amser os oes pryderon amddiffyn plant.

Lle bo'n briodol, i ddysgwyr 13 oed ac yn hŷn, gall staff roi/cyfeirio dysgwyr at wybodaeth am atal cenhedlu a lle gallant gael mynediad at ddarpariaeth iechyd rhywiol leol. Mae <u>Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (Cymru a Lloegr)</u> yn datgan na all pobl ifanc dan 13 oed gydsynio i weithgaredd rhywiol, felly os yw dysgwr dan 13 oed yn datgelu ei fod yn cael rhyw, rhaid dilyn y Protocol Diogelu ar gyfer Ysgol Hamadryad

## 16. Ymddygiad Rhywiol Niweidiol

Mae aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn cael ei gymryd o ddifrif yn Ysgol Hamadryad. Mae'r dull gweithredu ysgol gyfan ar gyfer ACRh yn sicrhau bod ymagwedd ataliol a rhagweithiol yn cael ei fabwysiadu i fynd i'r afael â'r broblem. Mae hyn yn cynnwys rhoi sicrwydd i ddysgwyr y bydd staff ysgol/darpariaeth addysg yn cymryd pob achos o aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion o ddifrif ac yn gweithio mewn partneriaeth â'r dysgwyr, y rhieni/gofalwyr ac asiantaethau allanol lle bo'n briodol i ymdrin ag unrhyw ddigwyddiadau.

Byddwn yn darparu cyfleoedd dysgu digonol, cronnol a buddiol i ddysgwyr ar draws yr ystod oedran gyfan am ymddygiadau rhywiol niweidiol. Mae hyn yn cynnwys darparu amgylchedd diogel, galluogol a chefnogol ar gyfer trafodaethau agored a gonest.

## 17. Cyfeirio at wasanaethau *(**Personolwch** yn ôl yr angen)*

Gall dysgwyr gael mynediad at amrywiaeth o wybodaeth a chyngor trwy:

- Diwtoriaid Blwyddyn a Phenaethiaid Blwyddyn
- Tîm Lles yr ysgol
- Tîm Nyrsio Ysgolion Caerdydd a'r Fro
- Gwasanaeth neges destun 'CHAT Health', Tîm Nyrsio Ysgolion Caerdydd a'r Fro: 07520 615718 (11–19 oed)
- Gwasanaeth neges destun 'Llinell i Rieni', Tîm Nyrsio Ysgolion Caerdydd a'r Fro: 07312 263178 (i rieni/gofalwyr sydd â phlant 5-11 oed)
- Gwasanaeth Perthnasoedd Iach YMCA Caerdydd (11-25 oed)
- Childline
- Meic
- Cwnsela yn yr ysgol

## 18. Datganiad Cydraddoldeb *(**Personolwch** yn ôl yr angen)*

Mae ein hysgol yn cydnabod bod gan bobl anghenion, gofynion a nodau gwahanol a byddwn yn gweithio'n weithredol yn erbyn pob math o wahaniaethu drwy hyrwyddo cysylltiadau da a pharch at ei gilydd o fewn cymuned ein hysgol. Mae'r Policy ACRh hwn yn cyd-fynd â Deddf Cydraddoldeb 2010. Dan ddarpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb, rhaid i ysgolion beidio â gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn dysgwyr ar sail eu hoedran, rhyw, hil, anabledd, crefydd neu gred, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd neu famolaeth, priodas neu bartneriaeth sifil, neu gyfeiriadedd rhywiol (a elwir gyda'i gilydd yn *nodweddion gwarchodedig*). Rhaid i ysgolion/darpariaeth addysg wneud addasiadau rhesymol hefyd i leddfu anfantais.

## 19. Monitro a Gwerthuso ACRh *(**Personolwch** yn ôl yr angen)*

Bydd y cwricwlwm ACRh yn cael ei fonitro a'i werthuso gan Lowri Williams yn flynyddol gan ddefnyddio'r offeryn archwilio yn **Atodiad 1** sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyfredol. Gweler Rolau a Chyfrifoldebau 5.0.

**20. <u>Mynediad at y Polisi</u>** ***(Personolwch*** yn ôl yr angen)

Bydd y polisi hwn ar gael ar wefan yr ysgol.

Bydd agweddau ar y Polisi hwn yn cael eu hailadrodd ym Mhrosbectws yr Ysgol, ardaloedd a rennir ar rwydwaith yr ysgol a llawlyfr y staff. Gall rhieni/gofalwyr ofyn am gopi papur o'r Polisi gan yr ysgol.

**<u>ATODIADAU</u>**
**<u>Polisi Enghreifftiol ACRh Caerdydd</u>**

**21. Atodiad 1: Dull Gweithredu Ysgol Gyfan ar gyfer ACRh Offeryn Archwilio**
Mae'r rhestr wirio hon yn bennaf ar gyfer defnyddio'r aelod dynodedig o'r uwch dîm arwain sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros reoli darpariaeth ACRh gyfannol.

| **Meini Prawf Llwyddiant** | *Ar waith yn llawn* | *I ryw raddau Ar waith* | *Nid yw ar waith* |
|---|---|---|---|
| **Arweinyddiaeth ac Ymrwymiad** | | | |
| Mae gan aelod o'r uwch dîm arwain gyfrifoldeb cyffredinol dros ACRh. | | | |
| Mae aelod o staff sy'n cydlynu'r gwaith o ddarparu ACRh. | | | |
| Mae llywodraethwr a enwir ar gyfer ACRh. | | | |
| Mae cynllun gweithredu ar gael i sicrhau adolygiad a datblygiad parhaus o'r cwricwlwm ACRh. | | | |
| Mae gan yr ysgol bolisi ACRh cyfredol sydd wedi'i ddatblygu gan staff mewn ymgynghoriad â dysgwyr, rhieni/gofalwyr, llywodraethwyr ac mae'r corff llywodraethu wedi cytuno arno. | | | |
| **Deall anghenion dysgwyr a chymuned yr ysgol** | | | |
| Mae dysgwyr yn cymryd rhan weithredol yn natblygiad y cwricwlwm ACRh. | | | |
| Mae profiad amrywiol dysgwyr, fel grwpiau sy'n agored i niwed a'r rheini ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cydnabod ac mae eu hanghenion ACRh yn cael eu diwallu. | | | |
| Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r blaenoriaethau a'r anghenion iechyd sy'n dod i'r amlwg yng nghymuned yr ysgol leol sy'n berthnasol i ACRh. | | | |
| **Ymgysylltu** | | | |
| Mae'r polisi ACRh wedi'i ddosbarthu â phob aelod o gymuned yr ysgol gan gynnwys rhieni/gofalwyr ac ymwelwyr sydd ynghlwm sy'n ymwneud â darparu ACRh. | | | |
| Mae staff yn cymryd rhan weithredol mewn datblygu polisi ACRh a darpariaeth cwricwlwm. | | | |
| Mae rhieni/gofalwyr yn derbyn gwybodaeth am ddysgu eu plentyn yn ACRh. | | | |
| Mae trefniadau ar waith i rieni/gofalwyr weld deunyddiau addysgu ACRh. | | | |
| Darperir gwybodaeth i gefnogi rhieni/gofalwyr yn eu rôl fel addysgwyr ACRh yn y cartref. | | | |
| **Y Gweithlu** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mae'r holl staff sy'n ymwneud â chyflwyno'r rhaglen ACRh yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth briodol. | | | |
| Addysgir ACRh gan staff hyfforddedig, gwybodus a hyderus. | | | |
| **Perthnasoedd** | | | |
| Gall yr ysgol ddangos sut mae'n meithrin ac yn datblygu perthnasoedd iach rhwng holl aelodau cymuned yr ysgol. | | | |
| Mae'r ysgol yn hyrwyddo Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn weithredol. | | | |
| **Gwasanaethau Cymorth** | | | |
| Mae cyfraniadau gan asiantaethau allanol i ACRh yn cefnogi ac yn gwella'r rhaglen ACRh ac nid ydynt yn disodli'r addysgu gan staff yr ysgol. Mae ymwelwyr yn cydymffurfio â pholisi'r ysgol. | | | |
| Mae gan ddysgwyr oedran uwchradd fynediad at wybodaeth, cefnogaeth a chyngor lleol priodol. | | | |
| Mae'r ysgol yn ymgysylltu'n weithredol â gwasanaethau arbenigol e.e. nyrs ysgol. | | | |
| **Amgylchedd Dysgu** | | | |
| Mae'r holl staff yn sicrhau amgylchedd dysgu diogel i ACRh, gan ddefnyddio cytundebau dosbarth. | | | |
| Gall dysgwyr gael gafael ar gymorth a chyngor mewn ardaloedd dynodedig yn yr ysgol. | | | |
| **Cwricwlwm:** Datblygwyd y cwricwlwm yn unol â chanllawiau ACRh Llywodraeth Cymru ac mae'n ymdrin ag elfennau statudol y Cod ACRh.<br><br>Addysgir ACRh trwy ddull trawsgwricwlaidd trwy'r holl Feysydd Dysgu a Phrofiad, yn ogystal â thrwy wersi ACRh arwahanol. | | | |
| Mae dysgwyr yn cymryd rhan weithredol yn natblygiad y cwricwlwm ACRh. | | | |
| Mae trosolygon cwricwlwm ACRh wedi'u datblygu'n glir gan nodi camau dilyniant. | | | |
| Dewisir adnoddau'n ofalus am eu haddasrwydd ac fe'u hadolygir oherwydd eu heffeithiolrwydd. | | | |
| Defnyddir ystod o strategaethau dysgu ac addysgu sy'n annog cyfranogiad gyda chyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu gwerthoedd, sgiliau ac agweddau cadarnhaol ynghylch ACRh. | | | |
| Mae asesu cyflawniad dysgwyr mewn ACRh wedi'i gynllunio i'r rhaglen. | | | |
| <u>Y camau nesaf</u> | | | |

| |
|---|
| Cwblhawyd gan: Dyddiad: |

*(Addaswyd o Gylchlythyr Llywodraeth Cymru: 019/2010, Fforwm Addysg Rhyw 'Offeryn Archwilio ACRh Ysgol Gyfan': 2018, Gwobr Ansawdd Cenedlaethol CYIRhC gan Gynllun Ysgolion Iach Sir Fynwy Mai 2022)*



## 22. Atodiad 2: Cytundeb dosbarth enghreifftiol ar gyfer ACRh

Mae datblygu cytundeb dosbarth fel rhan o ACRh yn sefydlu paramedrau clir ynghylch yr hyn sy'n briodol ac yn amhriodol mewn lleoliad grŵp cyfan. Yn ei dro, mae hyn yn helpu i greu cydbwysedd rhwng dysgwyr sy'n teimlo eu bod yn cael eu parchu ac yn ddiogel, a diogelu preifatrwydd unigolion.

**Cytundeb dosbarth**

1. Rydym yn deall ein bod i gyd yn wahanol ac mae gennym ein barn / profiadau ein hunain, ond bydd pawb yn cael eu trin â pharch.

2. Ni fyddwn yn gofyn cwestiynau personol.

3. Os oes gennym gwestiynau pellach ar ôl y wers, byddwn yn siarad ag oedolyn yr ydym yn ymddiried ynddo.

4. Byddwn i gyd yn gwneud ein gorau i herio rhagfarn yn ei holl ffurfiau.

5. Byddwn yn defnyddio'r geiriau cywir ar gyfer rhannau o'r corff a gweithgaredd rhywiol.

6. Os yw'r athrawon/staff yn credu eich bod mewn perygl o niwed, mae ganddynt gyfrifoldeb i rannu'r wybodaeth gyda'r Arweinydd Diogelu. (Personolwch gydag enw Arweinydd Diogelu os oes angen)

   Personolwch i adlewyrchu eich dosbarth / grŵp.